**Cofnodion Bwrdd Rheilffyrdd TrC Cyf**

**11 Hydref 2024**

**09:00 – 14:00**

**Lleoliad: Depo Ffynnon Taf**

**Yn bresennol**
James Price (Cadeirydd), Alexia Course, Jan Chaudhry van der Velde, Heather Clash, Marie Daly a Peter Strachan.

**Hefyd yn bresennol**
Julian Edwards (Cyfarwyddwr Anweithredol Cysylltiol) ac Erica Bartley (Ysgrifennydd).

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

**1a. Ymddiheuriadau am Absenoldeb**
Dim.

**1b. Hysbysiad ynghylch Cworwm**
Gan fod cworwm yn bresennol, croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a datgan bod y cyfarfod yn agored.

**1c. Datgan Buddiant**
Cadarnhaodd yr aelodau fod eu datganiadau o fuddiannau yn dal yn gyfredol ac nad oedd unrhyw fuddiannau ychwanegol i'w datgan yn ymwneud yn benodol ag eitemau ar yr agenda. Mae Heather Clash, Alexia Course a James Price yn gyfarwyddwyr Ffeibr TrC Cyf. Julian Edwards yw Rheolwr-gyfarwyddwr dros dro Cross-Country Trains Ltd.

**2. Sylw i Ddiogelwch**
[redacted]

**3. Sylw i Gwsmeriaid**
Trafododd y Bwrdd effaith digwyddiadau arbennig Categori A ar berfformiad yng Nghaerdydd. Dangosodd y papur welliannau'r tîm i wasanaethau yn ystod digwyddiadau Categori A dros y 18 mis diwethaf drwy wella gwasanaethau, parhad busnes a rheoli refeniw. Croesawodd y Bwrdd y gwaith a wnaed i sicrhau gwelliannau yn ystod digwyddiadau, a thrafododd y galw diweddar ar wasanaethau yn ystod Hanner Marathon Caerdydd wrth ddelio â gwasanaethau yn lle trenau ar reilffordd Coryton.

Trafododd y Bwrdd opsiwn system archebu teithiau ar gyfer digwyddiadau mawr. **[Gweithredu – Alexia Course / Marie Daly i weithio gyda'i gilydd ar dreial tocynnau seiliedig ar ddigwyddiadau].**

**4. Cofnodion a Chamau Gweithredu**

Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod 13 Medi 2024. Nodwyd y Log Camau Gweithredu.

**5. Adroddiad y Prif Swyddog Gweithrediadau**

Derbyniodd a nododd y Bwrdd drosolwg o adroddiad y Prif Swyddog Gweithrediadau ar gyfer cyfnod 06.

Roedd adolygiad y Prif Swyddog Gweithrediadau yn canolbwyntio ar y materion canlynol:

- Methwyd y targedau canslo eto ond roedd gwelliannau o ran nifer y gwasanaethau a gafodd eu canslo ar Linellau Craidd y Cymoedd yn dilyn y newid i amserlen mis Mehefin 2024.
- Cyflwynwyd metrigau prydlondeb yn ymwneud â'r amser mae teithwyr yn ei golli (PTL).
- Nid adroddwyd am brinder criwiau trenau yn ystod y cyfnod dan sylw.

**[Gweithredu – Jan Chaudhry van der Velde i drafod gyda Colin Lea a Zoe Smith-Doe er mwyn adolygu'r targedau a osodir yn y dyfodol, gan sicrhau cydbwysedd rhwng uchelgais a'r realaeth o ddarparu gwasanaethau trên ar adeg pan fo llawer o newid trawsnewidiol.**

- Daeth Cyfarwyddwr Rheoli Seilwaith AIW i Is-bwyllgor Perfformiad y Bwrdd yn ddiweddar i ymateb i rai o faterion rhwydwaith presennol AIW, yn enwedig o ran amseroedd ymateb a materion adnoddau.
- Roedd methiant y turn dros gyfnod o dair wythnos yn Nepo Treganna wedi effeithio ar Class 158. Ar hyn o bryd mae camau'n cael eu cymryd i weld pa mor gyflym y gall cyflenwr TrC osod y turn islaw newydd fel rhan o raglen gyflymach
- [redacted]
- [redacted]
- Adroddwyd ynghylch pedwar achos categori A o basio signal yn beryglus (SPaDs) yn ystod y cyfnod, gyda dau ohonynt wedi'u hachosi gan wallau ar y byrddau atal.
- [redacted]
- Un ddamwain RIDDOR yn ystod y cyfnod pan oedd gweithiwr yn paratoi trên at ddibenion cynnal a chadw.
- [redacted] Mae estyniad ASLEF ar y cytundeb gwaith diwrnod gorffwys bellach wedi'i ymestyn am flwyddyn arall.
- Mae Strategaeth Cyflwyno Amserlen Llinellau Craidd y Cymoedd yn raddol yn cael ei diwygio gyda chynllun newydd a fydd yn darparu pedwar trên yr awr **[Gweithredu – Marie Daly i gyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf am Gynigion Gwasanaeth a Chwsmeriaid y Metro yn ystod y cyfarfod nesaf]; [Gweithredu – Alexia Course i gyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf am gerbydau EIS 398 yn ystod y cyfarfod nesaf].**

**6. Optimeiddio Gwaith Cynnal a Chadw CAF**

[redacted]

**7. Adroddiad Dangosyddion Perfformiad Allweddol Strategol**

Nododd y Bwrdd yr adroddiad.

**8. Adroddiad Iechyd, Diogelwch, Amgylchedd a Chadernid Strategol**

Nododd y Bwrdd yr adroddiad Iechyd, Diogelwch, Amgylchedd a Chadernid Strategol ar gyfer cyfnod 06.

**9. Dangosfwrdd Risg Rheilffyrdd**

Nododd y Bwrdd y diweddariad i'r Dangosfwrdd Risg Rheilffyrdd.

**10. Y Newyddion Diweddaraf am y Gororau**

*Ymunodd Piers Croft â'r cyfarfod.*

Cyflwynwyd y newyddion diweddaraf am y Gororau i'r Bwrdd.

- Cyfnod 06 oedd y trydydd uchaf o ran refeniw arlwyo'r Gororau.
- Mae cynyddu ymwybyddiaeth o Ddosbarth Cyntaf yn ofynnol drwy wella'r wefan a hyrwyddo argaeledd bwyd ar y trên.
- Mae'r rhan fwyaf o bobl yn archebu tocynnau ar yr ap o'i gymharu â'r wefan. Fodd bynnag, mae angen diweddariadau i wella swyddogaethau yn y ddau faes er mwyn gyrru gwybodaeth a hyrwyddo gwasanaethau dosbarth cyntaf i gwsmeriaid.
- Mae Trainline yn symud yn ei flaen â'r gwaith o gynnwys gwybodaeth arlwyo ar amserlenni.
- Mae nifer y teithwyr wedi cynyddu ac mae cwynion ynghylch gorlenwi wedi gostwng.
- Clirio ar gyfer defnyddio pum cerbyd ar weithrediadau Class 197 i Amwythig.

**[Gweithredu – Marie Daly i roi adborth i'w thîm ynglŷn â'r wefan ac uwch-werthu gwasanaethau bwyd dosbarth cyntaf.**

*Gadawodd Piers Croft y cyfarfod.*

**11. Yr wybodaeth ddiweddaraf am ddiogelu refeniw**

*Ymunodd James Gough â'r cyfarfod.*

Mae'r ddarpariaeth diogelu refeniw bresennol yn gymysgedd o dimau mewnol ac allanol. Y dyhead yw cael dull mewnol sy'n canolbwyntio ar y cwsmer ac sy'n rhoi gwell ffocws ar wasanaeth i gwsmeriaid, addysgu teithwyr a newid ymddygiad cwsmeriaid. Roedd y Bwrdd wedi gofyn am ddiweddariadau rheolaidd o ran sut mae'r cynnig yn gweithio. Cymeradwyodd y Bwrdd y cysyniad ar gyfer gweithrediadau refeniw yn y dyfodol.

*Gadawodd James Gough y cyfarfod.*

**12. Adolygiad Ariannol**

*Ymunodd Stephanie Raymond â'r cyfarfod.*

Trafododd y Bwrdd y perfformiad ariannol ar gyfer cyfnod rheilffyrdd 06.

- [redacted]
- Mae perfformiad gweithredol wedi gweld arbedion sylweddol o ran darparu bysiau brys, ond ers i'r amserlen gael ei diweddaru ym mis Mehefin 2024 mae wedi dechrau gostwng yn sgil cynnydd yn nifer y gwasanaethau sy'n cael eu canslo ac oedi ar Linellau Craidd y Cymoedd yn bennaf. Mae hyn wedi cael ei ystyried yn yr alldro.
- Criw trenau – mae wedi'i or-sefydlu ar hyn o bryd oherwydd cyfraddau gadael is na'r disgwyl. Bwriedir llunio cyfraddau gadael tybiedig i greu senarios.
- [redacted]

*Gadawodd Stephanie Raymond y cyfarfod.*

**13. Diweddariad Masnachol**

*Ymunodd Chris Williams â'r cyfarfod.*

Rhoddodd y Bwrdd ystyriaeth i'r diweddariad masnachol a oedd wedi'i gynnwys yn y pecyn.

- [redacted]
- [redacted]
- Tocynnau Cosb – disgwylir i drydydd cam y gwaith ehangu, sef y cam olaf, ddod i ben yn ystod cyfnod 09.

Canmolodd y Bwrdd y tîm am ganlyniadau adroddiad chwarterol Swyddfa'r Rheilffyrdd a'r Ffyrdd (ORR) lle'r oedd TrC wedi sicrhau twf sydd 27.5% yn uwch na'r cwmnïau trên eraill.

*Gadawodd Chris Williams a Marie Daly y cyfarfod.*

**14. Class 231 – Trosi Hybrid**

*Ymunodd Rob Hale ac Owen Clutterbuck â'r cyfarfod.*

Gwnaed cyflwyniad i'r Bwrdd roi caniatâd i fwrw ymlaen â gwaith trosi hybrid class 231 ac i sefydlu tîm prosiect i gynorthwyo â'r gwaith trosi gyda Stadler. [redacted]

*Gadawodd Owen Clutterbuck a Rob Hale y cyfarfod.*

**Gan nad oedd unrhyw fater arall, diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyfraniadau a daeth â'r cyfarfod i ben.**